



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 47  
MEDI 2012

Tra ar ein gwyliau yn ystod mis Awst cawsom gyfle i ymweld â phentref hynafol Hallstatt, nid nepell o ddinas Salzburg yng ngwlad Awstria. Mae'n bentref tlws ar lan llyn sy'n dwyn yr un enw ac yn gyrchfan poblogaidd i lu o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf. Ond yn ogystal â bod yn lecyn dymunol, mae'r pentref yn nodedig am ddau reswm arall. Yn gyntaf, rhoddwyd yr enw Hallstatt ar brif ddiwylliant canolbarth Ewrop yn yr 8fed ganrif cyn Crist, sef y diwylliant a gysylltir â'r Celtiaid cynnar. Yn ail, ceir yno hefyd y gwaith halen hynaf yn y byd ac mae'n dal yn weithredol heddiw. Bu pobl yn cloddio yma ers y cyfnod *neolithig*, sef Oes Newydd y Cerrig, gan yr ystyrid halen yn werthfawr iawn ac yn fodd i gadw bwyd yn iach ac yn ffres. Mewn cyfnod diweddarach, mae'n debyg y byddai milwyr yr Ymerodraeth Rhufeinig yn derbyn ychydig o halen fel rhan o'u cyflogau.

Ceir sawl cyfeiriad at halen yn y Beibl. Cofiwn am wraig Lot yn cael ei throï yn golofn o halen wrth iddi anufuddhau i orchymyn Duw drwy fynnu edrych yn ôl ar ddinasoedd Sodom a Gomora yn cael eu dinistrio. Yn Llyfr Ecclesiasticus yn yr Apocryffa rhestrir halen fel un o brif reidiau bywyd: *Y pennaf o holl reidiau pob un i fyw yw dŵr, a thân, a haearn, a halen, a blawd gwenith, a llaeth a mêl, a sudd grawnwin, ac olew a dillad.* (Ecclesiasticus 39:26). Ac yn ei Lythyr at y Colosiaid mae'r Apostol Paul yn ein hannog i ddefnyddio geiriau grasol wedi'u blasu â halen (Colosiaid 4: 6). Ond diau mai'r cyfeiriad mwyaf cyfarwydd at halen yn y Beibl yw geiriau'r Iesu yn ei Bregeth ar y Mynydd pan ddywedodd wrth ei ddilynwyr: *Chwi yw halen y ddaear: ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef?* (Mathew 5: 13)

Wrth iddo annerch ei ddilynwyr mae'r Iesu yn ein herio i weithredu fel halen, drwy fod yn barod i buro ein byd a rhwystro unrhyw fath o lygredigaeth yn ein cymdeithas. Ond o gofio am yr holl bethau sydd yn llwyddo i lygru'r blaned hon heddiw fel rhyfel, trachwant a chreulondeb pobl tuag at ei gilydd, digon rhwydd yw anobeithio a theimlo ein bod yn colli'r frwdyr i gadw'r pethau da yn fyw ac yn iach, yn arbennig felly wrth i nifer y Cristnogion yn ein gwlad leihau.

Ond peidiwn â digalonni! Cofiwn gymaint o wahaniaeth y gall pinsiaid o halen ei wneud wrth baratoi neu arlwyo pryd o fwyd. Na, does dim angen llawer o halen i roi blas ar fwyd ac mae ychydig bach yn medru gwneud y byd o wahaniaeth. Felly ninnau, er mai bychain ydym o ran nifer gallwn wneud gwahaniaeth mawr. Mae pinsiaid o Gristnogaeth yn medru mynd ymhell! Awn ati i daenu blas y bywyd Cristnogol yn ein cymdeithas o'r newydd!

*Gwna ni fel halen trwy dy ras  
yn wyn, yn beraidd iawn ei flas,  
yn foddion yn dy law o hyd  
i dynnu'r adflas sy' ar y byd.*

(Pantycelyn)

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

## CALENDR MIS MEDI 2012

Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds	Organydd y Mis: Mair Evans	
2 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwen
9 Medi 10.30yb	Sul y Croeso Mawr: Gweinidog	
16 Medi 2.30yp	OedfaBregethu: Y Br. Lyn Lewis Dafis	Gofal y Te: I'w drefnu
23 Medi 10.30yb	Gwasanaeth Sul Heddwch Cynhelir y Clwb Sul yn y festri o dan arweiniad Eleri Pierce Jones am 10.30yb .	
30 Medi 10.00yb	Oedfa Gomisiynu Eleri Pierce Jones, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid, Menter Gydenwadol Eglwys Gogledd Ceredigion ym Methel, Stryd y Popty. Fe fydd eglwysï'r dref a'r ardal yn ymuno ar gyfer yr oedfa hon	
7 Hydref 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue

### I'CH DYDDIADUR

3 Medi: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod: 12.15-1.30yp.

4-6 Medi: Cynhadledd Ddwieithog Flynyddol BMS Cymru yn Llanbedr Pont Steffan.

10 Medi: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am 7yh.

12 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

15 Medi: Ffair Medi yn Festri Bethel o 10.00yb.

25 Medi: Cylich Darllen y Beibl: Philipiadaid Pennod 3: Festri Horeb 7.30yh.

26 Medi: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

26 Medi: Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd yn Seion Newydd, Treforys am 2yp a 5yh.

26 Medi: Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Dei Tomos am 7.30yh yn Festri Horeb.

3 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb yng nghwmni Aled Pickard, Cymorth Cristnogol am 7yh

6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin yn Llanellwedd. Gŵyl Gristnogol i bob oed. Trefnir ar y cyd gan Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynwyr. Byddwn yn trefnu bus.

### LLOFFION

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Doreen, Mark a Jayne a'r teulu, ar farwolaeth Tom.

**Llongyfarchiadau** i Elin Haf Huxtable a raddiodd yng Nghaerdydd fis Gorffennaf a dymuniadau gorau iddi ar ei swydd newydd gyda'r Urdd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

**Croeso** cynnes i Elin Haf, Gethin a Twm i Benrhyn-coch

**Barbeciw Mis Gorffennaf:** Diolch yn fawr i Sandra a Mansel am baratoi'r barbeciw ar ein cyfer ym mis Gorffennaf a diolch i Sian am gael defnyddio'r stablau unwaith yn rhagor. Diolch hefyd i Ceri a Derfel am feirniadu'r gystadleuaeth arlunio ac i bawb a gyfrannodd ymhob ffordd. Codwyd £170 tuag at Apêl Lucy. Diolch yn fawr iawn.

**Diolch** yn fawr hefyd i Derfel am ei gyflwyniad yn yr oedfa deuluol ym mis Mehefin wrth iddo sôn am ei brofiad yn cludo'r Fflam Olympaidd yn Llan-non.

**Encil:** Mae wedi bod yn fwrriad gennyf ers tro i drefnu diwrnod o encil ym Mhennant Melangell, Llangynog, Sir Drefaldwyn. Yn ogystal â'r Eglwys, mae yno ganolfan ar gyfer grwpiau ac mae'n bosib trefnu cael cinio ysgafan. Dyma fydd trefn y diwrnod yn fras: cyrraedd erbyn amser coffi, cynnal cyfnod o fyfyrddod, mynychu'r oedfa gymun yn yr eglwys, cinio ysgafn, cyfnod o fyfyrddod a phaned o de cyn ymadael. Nid oes dyddiad wedi'i drefnu eto ond os hoffech ymuno â ni rhwch wybod gan nodi pa ddiwrnod o'r wythnos sydd orau gennych. Y gost fydd tua £10 y pen.

**Oedfa Ddiolchgarwch:** Byddwn yn cynnal ymarferion ar gyfer Parti Canu'r Merched wedi'r oedfa ar y 9fed Medi er mwyn cyflwyno un neu ddau o emynau yn yr Oedfa Ddiolchgarwch. Diolch i Mair am ddewis emynau addas.